



Wilia

PAPUR MISOL
CYMRAEG
ABERTAWE

RHIF 430 TACHWEDD 2020

AM DDIM!



Mae Cymdeithas Ty Tawe wedi lansio Clwb Cefnogwyr, er mwyn sicrhau

ffyniant y Ganolfan Gymraeg am y 30 mlynedd nesaf.

Agorwyd Canolfan Ty Tawe yn 1987 yn dilyn pum mlynedd o godi arian gan wirfoddolwyr yn Abertawe. Y nod oedd cynnal siop Gymraeg, cael lle i gymdeithasau gyfarfod a lle i ddysgwyr ddod yn siaradwyr newydd yr iaith.

CLWB CEFNOGWYR TY TAWE

Ymunodd tua 200 o bobl Abertawe â'r Gymdeithas a daeth llawer yn aelodau oes trwy gyfrannu £100 neu ragor. Ers hynny mae'r Ganolfan wedi rhedeg yn hwylus wrth gynnal y siop, gyda digwyddiadau cyson yn cael eu cynnal ac wrth i filoedd ddysgu'r iaith yn y Ganolfan.

Bellach mae cyfyngiadau ariannol yn sgil Covid-19 yn peri bod angen cael ffynhonnell arian gyson i ddiogelu'r Ganolfan am y 30 mlynedd nesaf.

Y nod yw cael nifer sylweddol i ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Ty Tawe, gan gyfrannu'n fisol, os yw'n bosibl.

Mae cost cynnal y Ganolfan yn gymharol fach, rhwng £15,000 ac £20,000 y flwyddyn, gan gynnwys costau gwresogi, trethi lleol, yswiriant, glanhau, dwr a thrydan ac ati. Mae gan y Ganolfan swm cymharol fach yn y coffrau ar hyn o bryd, cyfanswm o ryw £16,000.

Mae'r cyfnod Covid-19 wedi peri bod incwm arferol y Ganolfan wedi disgyn yn sylweddol, a heb ffrwd ariannol newydd, gallai'r Ganolfan wynebu problemau ariannol mawr.

Wrth ymuno â Clwb Cefnogwyr caiff pobl aelodaeth yn y Gymdeithas, a disgownt yn y siop. Y prif foddhad, beth bynnag, fydd cyfrannu at lewyrch bywyd Cymraeg Abertawe am flynyddoedd i ddod.

Mae ffurflen gefnogi yn Wilia'r mis yma.



SIOP TY TAWE

Mae Siop Ty Tawe wedi bod ar agor am dridiau yr wythnos, am oriau cyfyngedig, ers canol mis Gorffennaf.

Yn sgil y 'cloi cenedlaethol', mae'r y siop yn gorfod cau o Hydref 24 tan Dachwedd 9, ond y gobaith yw y bydd yn gallu agor ar ôl hyn yn hwylus tan y Nadolig.

Mae stoc o gardiau Nadolig wedi cyrraedd, ac anrhegion.

Mae yno'r llyfrau diweddaraf, gan gynnwys cofiant Neil Rosser, Ochor Treforys o'r Dre, cofiant Elfyn Llwyd, cofiant y cyn brifweinidog, Carwyn Jones, Not Just Politics, a nofel grafog Andrew Green sy'n defnyddio Prifysgol Abertawe'n batrwm ar gyfer cyfleu llu o broblemau prifysgol.

Mae'r holl nofelau Cymraeg diweddar yma hefyd.

I blant mae jig-sos lliwgar hwiangerddi Cymru, a llu o lyfrau darllen/

Dewch i'r siop i brynu eich anrhegion Nadolig.

CLOD I ELERI

Dr Eleri Davies, gynt o Benllergaer, a merch Ann Davies a'r diweddar Dr John Davies, yw cyfarwyddwr digwyddiadau pla Covid-19 y Gwasanaeth Lechyd yng Nghymru.



Cafodd ei hanrhydeddu am ei gwaith gan anrhydeddau'r frenhines. Eleri yw pennaeth adran heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd gyda'r Gwasanaeth Lechyd yng Nghymru.

Meddai Eleri, "Rwy'n derbyn yr anrhydedd gyda balchder wrth gydnabod ymdrechion diflo holl dimau rheoli ac atal heintiau yng Nghymru a'r byd nyrso'n gyffredinol. Diolch arbennig i 'ngwr sydd wedi fy nghefnogi trwy gydol yr amser heriol yma."

Meddai Eleri bod y cloi lleol wedi arafu lledaeniad y pla i ryw raddau, ond bod y pla'n dal i gynyddu wrth i bobl ddal i allu cyfarfod dan do.

"Rwy'n deall ei bod yn mynd yn fwy anodd wrth i'r tywydd waethygu, ac mae llawer o bobl wedi blino ar y cloi. Ond dyna sut mae'r firws yn lledaenu ac mae'n rhaid i ni gymryd camau yn erbyn hyn," meddai Eleri.

"Mae'n neges ddiflas efallai ond mae ymbellhau

cymdeithasol, golchi dwylo a sicrhau nad ydych chi'n cwrdd yn gymeithaso dan do yn allweddol."

Meddai mai ei rôl hi oedd cynghori Llywodraeth Cymru, a'r Llywodraeth sy'n gwneud penderfyniadau ar gloi cenedlaethol. "

"Dyw hi ddim yn hawdd o gwbl. Rwy'n gwybod hyn o 'mhrofiad fy hun. Mae fy mam wedi eic chloi yn Abertawe a dw i ddim yn gallu ymweld â hi. Rydyn ni i gyd yn wynebu heriau o ran yr hyn y gallwn ni ei wneud o dan y rheolau."

"Bydd nifer yr achosion yn cynyddu o na allwn ni gadw at y rheolau hynny."

**Oriau Agor
Siop Ty Tawe
(o Dachwedd 9)
Dydd Iau, Gwener
a Sadwrn
10am - 2pm**

Hapusrwydd yn y geiriadur!

Wrth wrando ar y newyddion ar y teledu neu'r radio, neu ddarllen y papurau newydd, yr ydym yn ddyddiol yn dod ar draws geiriau sy'n disgrifio'r pethau negatif mewn bywyd. Clywir llawer yn rhy aml geiriau megis damwain, llofruddiaeth, ymosodiad, terfysgaeth, ffrwydrad, hiliaeth, difrod, ac yn y blaen. Rhaid wrth eiriau o'r fath i ddisgrifio a chofnodi beth sy'n digwydd yn y byd – dyna yw swyddogaeth iaith, sef bod yn gyfrwng i ni gyfathrebu'n effeithiol - ac i wneud hynny rhaid adrodd y da a'r drwg. Yr oedd hoff grys t gan fy merch pan yn blentyn bach – un glas ydoedd a llun gwên fawr ar y tu blaen, ac ar y cefn 'roedd aralleiriad lliwgar o gofnod mewn geiriadur (er nid GPC!): –

Hapus: bodlon, dedwydd, llon, bendigedig, wrth fy modd.

Roedd y crys t yn drawiadol ac yn tynnu sylw. Mi fyddai pobl yn ymateb iddo gan ddweud ei fod yn hyfryd, ac wedi rhoi gwên ar eu hwyneb. Disgrifiad y gair yn meithrin y teimlad. Mae gan eiriau bŵer.

Felly gyda'r bwriad o godi calon, dyma gip olwg ysgafala (ysgafn) ar rai o'r geiriau mwy anarferol yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru

sy'n cyfleu neu ddisgrifio hapusrwydd neu lawenydd.

Rwy'n gobeithio eich bod yn darllen hwn ar wiwdymp, sef ar adeg ffafriol, a'i fod yn rhoi heulfodd (pleser gwych) i chi ddarganfod y geiriau. Rhaid dweud mai hapuswaith oedd chwilio'r fath eiriau, yn peri i mi ganu llwyddwawd (cân hapus) wrth weithio. Rydych yn hyffawd (ffodus) nad oedd modd i chi fy nghlywed! Gobeithio cewch fwynhau hydref diale (diofal) a chynedwydd (dedwydd) yng nghwmni cyfeillion breulon (hynaws). Byddwch wastadwyn (hapus yn barhaus) a ffrwlol (llon eich gwedd). Ac os oes gennych gi, gobeithio ei fod yn gynffonlon!

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn drysordy o eiriau o'r fath – porwch ynddo i ddarganfod y perlau. Rhowch wybod os oes gennych ar lafar unrhyw air diddorol am lawenydd neu hapusrwydd sydd heb ei gofnodi yno. Medrwrch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH

Rhwng y Silffoedd gan Andrew Green – Barn Cylch Trafod

Llyfrau Tŷ Tawe

Marciau: yn amrywio rhwng 7 a 9 marc, gyda'r rhan fwyaf yn rhoi 8 marc

"Llyfr diddorol iawn. Mae'n seiliedig ar bethau sydd wedi bod yn digwydd yn eithaf agos aton ni yma yn Abertawe, rwy'n meddwl."

"Wedi mwynhau'n enfawr. Awdur cwbl ddisglair. Mae'n llwyddo i gondemnio system prifysgolion sy'n cael eu rhedeg fel busnesau."

"Roedd yr enwau yn ddoniol – pob un yn enw ar Annwn, yr Isfyd neu uffern!"

"Wedi mwynhau – llyfr crafog, clyfar dros ben. Mae rhai golygfeydd yn ymylu ar fod yn ffars oni bai bod rhywun yn gwybod iddyn nhw ddigwydd go iawn."

"Yn anffodus, mae gormod o wirionedd yn y llyfr! Mae'n ddoniol iawn ar adegau ac ro'n i'n hoffi'r tro yn y gynffon."

"Mae'r golygfeydd yn dangos yn union beth sy'n digwydd mewn prifysgolion ledled Prydain. Does dim owns o ddychymyg yma mewn gwirionedd. Nofel yr oedd angen ei hysgrifennu."

"Gan imi fod yn gweithio yn y brifysgol, dwi ddim yn siŵr a ydw i wedi mwynhau. Ychydig yn rhy agos i'r gwirionedd imi ei gwir fwynhau."

Ro'n i'n teimlo'n anghyfforddus ac yn bryderus ar brydiau. Eto, roedd yn ddiddorol ac yn glyfar o ran sut roedd wedi strwythuro'r plot."

"Roedd darllen y llyfr yn brofiad cymysglyd i mi. Ddim yn siŵr a ydw i wedi mwynhau – roedd rhai pethau'n agos iawn at yr asgwrn."

"Roedd damau yn y canol yn araf, ond eto roedd hi'n ddeifiol ac yn glyfar iawn. Mae angen i bobl sylweddoli beth sy'n digwydd ac yn cael ei ddweud mewn prifysgolion."

"Yn hoffi'r hiwmor, a'r gwirionedd yma."

"Mae'r cyfan yn adeiladu at araiht y prif gymeriad sy'n dweud beth yw addysg a beth ddylai addysg prifysgol fod. Mae'n hynod o gelfydd."

"Weithiau mae'r holl ffurfiau (areithiau cyfan, erthygl, trydariadau) yn tarfu ar lif y darllen, dyna fy marn i, ond mae'n rhan o nofel ôl-fodernaidd."

"Mae'r awdur yn chwarae â ni ac yn cael hwyl – mae'r mynegai ar y diwedd yn ddoniol dros ben."

Cyfarfodydd nesaf, ar Zoom, am 7:30, ail nos Lun y mis – croeso i bawb ymuno, hyd yn oed os mai dim ond am y cyfnod hwn y bydd hi'n gyfleus ichi wneud – cysylltwch ag elin.angharad.meek@gmail.com i gael y manylion.

9 Tachwedd *Mefus yn y Glaw*, Mari Emlyn, £8.99, Gwasg y Bwthyn. 7 Rhagfyr *Perl*, Bet Jones, £8.99, Y Lolfa.

Adnabod y Gân



Pan dach chi'n clywed cerddoriaeth ar Radio Cymru mae gennych chi syniad go dda o bwy sy'n canu. Byddech chi'n adnabod Bryn Fôn, Elin Fflur ac, os dach chi'n ddigon hen, Edward H

Dafis. Ond nid y fath yna o gerddoriaeth yw'r unig fath dach chi'n clywed mewn diwrnod.

Sut ydych chi efo caneuon yr adar? Os ydych chi fel fi fyddech chi ddim yn rhy dda. Gresyn nad oes DJ yna i gyflwyno fel "A dyma, yn rhad ac am ddim, y robin goch i ganu 'Cheap, Cheap!'"

Rhestr go fyr yw'r caneuon adar dw i'n adnabod sef - ysguthan, pioden, y fwyalchen, sgrech y coed, brain a'r robin goch. Tydi hynny ddim yn ddigon da. Roedd Daniel Jenkins Jones yn arbennig ar y rhaglen Natur a Ni wrth gyflwyno cân aderyn bob wythnos ac esbonio sut i'w gofio. Er i mi drío'n galed doedd hynny ddim yn gweithio i mi, yr unig un alla i gofio yw'r robin goch.

Ddoe pan oeddwn i wedi mynd am dro cyn i'r haul godi roeddwn yn clywed y robin goch yn mhob man, bron fel oedd yn fy nilyn i ar y daith. Y gwir oedd roedd llawer ohonyn nhw ond mi wnaeth wneud i mi feddwl. Tu ôl i gan y robin roedd llawer o ganeuon eraill. Tybed os dw i'n troi'r broblem wyneb i waered a chanolbwyntio ar un o'r caneuon eraill a thrio ei glywed mewn gwahanol lefydd yn ystod y daith? Gwneud yr un peth y tro nesaf, a'r nesaf am wythnos gyfan tan i mi fod yn hollol gyfarwydd â'r gân wedyn chwilio am y canwr, bydd hynny'n ffordd well? Treulio wythnos neu ddwy i sicrhau mod i'n ddigon gyfarwydd wedyn mynd am y nesaf.

Petaswn i ddim ond yn dysgu pedwar newydd bob blwyddyn mi fydda i wrth fy modd! Beth amdanoch chi? Os dach chi eisiau gwneud yr un peth ewch allan tuag awr cyn y wawr a chyn i sŵn y drafndiaeth ddechrau, a mwynhewch!

Mae teithiau Cymdeithas Edward Llwyd wedi ail ddechrau ond, o achos y cyfyngiadau, dim ond i aelodau. Yn anffodus mae llawer o deithiau wedi cael eu gohirio achos cyfyngiadau lleol. Edrychwn ymlaen am ddyddiau gwell i ni gyd.

Cadwch yn ddiogel

Rob Evans

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe

Rhif Elusen: 514082



Hoffwn ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Cymdeithas Tŷ Tawe, gan gyfrannu at ddyfodol y Ganolfan a'i gwaith dros y Gymraeg.

Teitl: Enw/au cyntaf:

Cyfenw: Cyfeiriad:

..... Cod Post:

Cyfeiriad e-bost: Rhif ffôn:

Hoffwn dderbyn newyddion am weithgareddau Cymdeithas Tŷ Tawe

Hoffwn dderbyn e-gylchlythyr wythnosol Menter Iaith Abertawe

Gellir dad-danysgrifo o'r uchod ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'r Gymdeithas neu'r Fenter.

Mathau o Gefnogaeth	
(Yn ôl eich dewis – rydym yn ddiolchgar am bob cyfraniad)	
1	£2 y mis / £24 y fl.
2	£5 y mis / £60 y fl.
3	£10 y mis / £120 y fl.
4	£20 y mis / £240 y fl.
5	Teulu: Un o'r rhain + 50%

ARCHEB BANC : Ffurflen Clwb Cefnogwyr Cymdeithas Tŷ Tawe

Anfonwch y ffurflen hon, gan gynnwys yr adran Cymorth Rhodd isod at **Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe, Rhian Jones / Catrin Rowlands, Llecyn Llawn, 4 Stryd Lewis, St Thomas, Abertawe, SA1 8BP.**

I'r Rheolwr: Enw eich banc: Cyfeiriad eich banc:

..... Cod Post:

Enw deiliad y cyfrif:

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Rhif eich cyfrif:

--	--	--	--	--	--

Cod didoli:

--	--	--	--	--	--

Rwyf yn eich awdurdodi i dalu i gyfrif Cymdeithas Tŷ Tawe:

Rhif **1161768** Cod didoli **40-43-31** HSBC, 10 Stryd Portland, Abertawe SA1 3DF

(Cwblhewch:)

ar y cyntaf o fis yn y flwyddyn ac wedi hynny hyd rybudd pellach

bob mis / bob blwyddyn y swm o: £.....

Llofnod: Dyddiad:

Trwy lenwi'r rhan hon, caiff Tŷ Tawe 25c ychwanegol am bob £1 a gyfrannwch.

Datganiad Cymorth Rhodd Enw'r Elusen: Cymdeithas Tŷ Tawe, Elusen Gofrestredig Rhif 514082

Ticiwch: Rwyf am i'm cyfraniad o £..... fod yn Gymorth Rhodd

Dymunaf drin fy nghyfraniad i Gymdeithas Tŷ Tawe ac unrhyw rodd ariannol a wnaif yn y dyfodol i Gymdeithas Tŷ Tawe fel taliad Cymorth Rhodd. Rwy'n talu treth incwm y D.U. ac rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth os byddaf yn talu llai o Dreth Incwm a/neu dreth enillion cyfalaf y DU yn y flwyddyn dreth gyfredol na'r swm o Rodd Cymorth sy'n cael ei hawlio ar fy holl gyfraniadau. Deallaf y bydd yr elusen yn adhawlio 25c am bob £1 rwy'n ei rhoi o hyn ymlaen. Rhoddaf wybod i Gymdeithas Tŷ Tawe os bydd fy statws treth a/neu enillion cyfalaf neu fy nghyfeiriad yn newid yn y dyfodol neu os wyf am ganslo'r cyfarwyddyd hwn.

TEITL: ENW/AU CYNTAF: CYFENW:

CYFEIRIAD

..... COD POST:

Swm a gyfrennir yn y flwyddyn dreth 2020-2021: £

Llofnod: Dyddiad:

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe

Rhif Elusen: 514082



DIOLCH!

Yn arwydd bach o ddiolch, bydd pob cefnogwr yn derbyn talebau Siop Tŷ Tawe a cherdyn aelodaeth.

Mae pob cefnogwr hefyd yn dod yn aelod o'r Gymdeithas.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth!

- Caiff eich manylion eu cadw'n ddiogel, a'u defnyddio'n unig i gysylltu â chi am faterion yn ymwneud â Chymdeithas Tŷ Tawe.

UN TALIAD / TALU Â SIEC

Os yw'n well gennych dalu gyda siec, cwblhewch y ffurflen hon:

Hoffwn ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Cymdeithas Tŷ Tawe, gan gyfrannu at ddyfodol y Ganolfan a'i gwaith dros y Gymraeg.

Teitl: Enw/au cyntaf:

Cyfenw: Cyfeiriad:

..... Cod Post:

Cyfeiriad e-bost: Rhif ffôn:

Hoffwn dderbyn newyddion am weithgareddau Cymdeithas Tŷ Tawe

Hoffwn dderbyn e-glychlythyr wythnosol Menter Iaith Abertawe

Gellir dad-danysgrifo o'r uchod ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'r Gymdeithas neu'r Fenter.

Ticiwch y blwch priodol ar y dde, ac anfonwch y ffurflen hon (a siec am y swm a ddewiswch) a'r Datganiad Cymorth Rhodd isod at:

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe,
Rhian Jones / Catrin Rowlands,
Llecyn Llawn, 4 Stryd Lewis, St Thomas
Abertawe SA1 8BP.

1	£24	<input type="checkbox"/>
2	£60	<input type="checkbox"/>
3	£120	<input type="checkbox"/>
4	£240	<input type="checkbox"/>
5	<u>Un o'r rhain</u>	<input type="checkbox"/>
	+ 50%	
	Swm arall: £	

Trwy lenwi'r rhan hon, caiff Tŷ Tawe 25c ychwanegol am bob £1 a gyfrannwch.

Datganiad Cymorth Rhodd Enw'r Elusen: Cymdeithas Tŷ Tawe, Elusen Gofrestredig Rhif 514082

Ticiwch: Rwyf am i'm cyfraniad o £..... fod yn Gymorth Rhodd

Dymunaf drin fy nghyfraniad i Gymdeithas Tŷ Tawe ac unrhyw rodd ariannol a wnaif yn y dyfodol i Gymdeithas Tŷ Tawe fel taliad Cymorth Rhodd. Rwy'n talu treth incwm y D.U. ac rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth os byddaf yn talu llai o Dreth Incwm a/neu dreth enillion cyfalaf y DU yn y flwyddyn dreth gyfredol na'r swm o Rodd Cymorth sy'n cael ei hawlio ar fy holl gyfraniadau. Deallaf y bydd yr elusen yn adhawlio 25c am bob £1 rwy'n ei rhoi o hyn ymlaen. Rhoddaf wybod i Gymdeithas Tŷ Tawe os bydd fy statws treth a/neu enillion cyfalaf neu fy nghyfeiriad yn newid yn y dyfodol neu os wyf am ganslo'r cyfarwyddyd hwn.

TEITL: ENW/AU CYNTAF: CYFENW:

CYFEIRIAD

..... COD POST:

Swm a gyfrennir yn y flwyddyn dreth 2020-2021: £

Llofnod: Dyddiad:



Dathlu diwrnod

T. Llew Jones

Dathlwyd diwrnod coffa T. Llew Jones ym Mryn Tawe yn ôl ein harfer, gyda disgyblion o flwyddyn 12 yn recordio gwasanaeth o flaen llaw i ddisgyblion yr ysgol yn rhoi ei hanes. Hefyd, rhoddwyd y cyfle i flwyddyn 7 gwblhau tasg gwaith cartref amdano. Rhannwyd cynnyrch blwyddyn 7 ar drydar yr ysgol a gellir gweld y gwaith ar y linc yma: <https://sway.office.com/FaUyHVpzm44cBmCS?ref=Link>

HAF BACH MIHANGEL MERCHED Y WAWR

Mae Merched y Wawr Abertawe wedi dechrau tymor newydd o weithgareddau - gan ddilyn y cyfyngiadau ar y pryd drwy gwrdd yn yr awyr agored ym Mharc Singleton.

Dewisodd y Merched y diwrnod gorau o'n Haf Bach Mihangel eleni i gwrdd wrth y dderwen a blannwyd ddeng mlynedd yn ôl i nodi 40fed pen-blwydd ffurfio'r mudiad, cyn mynd ymlaen i gerdded drwy'r gerddi botaneg. Bu'r achlysur hefyd yn gyfle i gasglu tâl aelodaeth a dosbarthu'r cylchgrawn Y Wawr.

HER ARIANNOL I'R URDD

Annwyl ddarlennwyr,

Fel y gwyddoch, mae Urdd Gobaith Cymru yn wynebu sefyllfa argyfyngus o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac mae dyfodol y mudiad yn un bregus.

Ond, wrth i brif ffynonellau incwm y mudiad wynebu colledion, sef ein gwrsylloedd ar gau i breswylwyr a chyfyngiadau enfawr ar ein gwasanaethau cymunedol, rydym yn rhagweld toriadau incwm o £14 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf a dyled sylweddol, o leiaf £3.5 miliwn. **Mae'r mudiad hefyd wedi colli hanner ei weithlu o 320 o bobl o ganlyniad i'r toriadau, ac mae'r her yn un na wynebodd y mudiad ei thebyg o'r blaen.**

Mae unrhyw gyfraniad, bach neu fawr, yn hynod bwysig i ni ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Felly hoffem rannu gyda'ch darlennwyr yr amrywiol ffyrdd o gefnogi: I blant a phobl Ifanc - Dim ond £9 am flwyddyn, neu £25 am aelodaeth teulu

Newyddion Adran y Gymraeg Bryn Tawe

Heledd Clarke yn mynd am dro!

Cafodd holl ddisgyblion bl.7 i 10 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe bleser yn gwyllo Miss Clarke ar y rhaglen 'Am dro' ar S4/C. Aeth pawb ati'n frwd i ysgrifennu adolygiadau o'r rhaglen a gellir gweld rhai enghreifftiau yma. Mae'n amlwg fod nifer o'r disgyblion yn teimlo y dylai Miss Clarke fod wedi ennill! <https://sway.office.com/AAuAUay1dZWVf0dp?ref=Link>

Mererid a Waldo

Cafodd bl.12 Bryn Tawe gyfle i gael sgwrs gyda Mererid Hopwood yn rhithiol yn ddiweddar. Soniodd Mererid am Waldo gan fod y disgyblion newydd ddechrau astudio un o'i gerddi a thrafodwyd manteision astudio Cymraeg Safon Uwch yn gyffredinol. Fe fyddem fel arfer yn mynd â'n Chweched ar daith o gwmpas Cymru yr adeg yma o'r flwyddyn gan fwynhau sgwrs wyneb yn wyneb â Mererid, ond yn sicr, roedd y sgwrs rhithiol yn damaid i aros pryd rywbyrd eto gobeithio.

SHWMAE YSGOL GWYR

Ar ddiwrnod Shwmae Sumae eleni, cafodd ddisgyblion blyneddodded 7, 8 a 9 dipyn o fraint o gael gig gan y gantores Bronwen Lewis yn eu dosbarthiadau. Recordiodd Bronwen Lewis ei set o ganeuon yn arbennig

I Oedolion - Mae ffordd hawdd o gyfrannu trwy'r wefan (urdd.cymru), neu gallwch anfon cyfraniad trwy siec yn daladwy i Urdd Gobaith Cymru a'i hanfon at: Iwan Tudur Jones Adran Gyllid Urdd Gobaith Cymru. Gwrsyll yr Urdd Glan-llyn Llanuwchllyn Y Bala Gwynedd LL23 7ST. Am bob cyfraniad o fwy nag £20, byddwn yn anfon bathodyn arbennig aelodaeth yr Urdd 20-21 fel cydnabyddiaeth, felly cofiwch gynnwys eich cyfeiriad. Gan ddiolch o waelod calon am yr holl gefnogaeth., Sian Lewis Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru

ar gyfer y disgyblion a chafwyd cyfle i eistedd nôl a gwrando ar ei pherfformiad gwfreiddiol. Roedd ei chaneuon yn cynnwys rhai gwreiddiol a chyfieithiadau Cymraeg o ganeuon Saesneg poblogaidd. Am gyfle arbennig! Yn ogystal â hyn bu nifer o'r disgyblion yn mwynhau dilyn clip fideo Oreil Odl er mwyn cynhyrchu darluniau lliwgar i ddatlu'r diwrnod.



Shw'mae!

Er mwyn dathlu *Diwrnod Shwmae Sut'mae* ym Mryn Tawe paratowyd fideo i gynorthwyo rhieni a ffrindiau'r ysgol i ddsygu Cymraeg. Ffilmiwyd pob dosbarth yn eu tro yn dysgu llinell o Gymraeg. Dyma gyfle i chi weld y ffilm: <https://youtu.be/3nK4IV7sEE>

SIOP TY TAWE

Llyfrau newydd yn y siop:
Andrew Green—*Rhwng y Silffoedd*
Bet Jones—*Perl*
Mari Emlyn—*Mefus yn y Glaw*
Carwyn Jones—*Not Just Politics*
Ailagor Tachwedd 12, 10—2

CODI £300 I MACMILLAN

Diolch i Mr Henry o'r adran Arlwygo am ei waith caled eleni eto wrth gynnal Bore Coffi Macmillan. Fel arfer byddai'r staff i gyd yn cyfrannu cacennau a melysion at y wledd ond oherwydd cyfyngiadau eleni nid oedd y drefn arferol yn bosib. Daeth Mr Henry felly i achub y dydd gan greu pecynnau bwyd hynod **flasus i'r staff gyda'r staff** yn cyfrannu arian at yr achos da. Codwyd swm teilwng iawn o dros £300 gan staff yr ysgol.

Pwll Du gan Martin Jones



Mae nifer iawn o lefydd deniadol yng Nghymru, pa un yw eich ffefryn chi? Dw i'n lwcus achos mae fy ffefryn i ar stepen fy nrws - bae Pwll Du. Dw i'n hoffi cyrraedd y bae wrth gerdded trwy gwm Llandeilo Ferwallt. Dw i'n mwynhau'r cyferbyniad rhwng cerdded mewn cwm caeedig ac wedyn dod allan i un o faeau harddaf, nid yn unig ym Mhenrhyn Gŵyr, ond hefyd yng

Nghymru i gyd. Mae'n anodd iawn heddiw dychmygu Pwll Du yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd y bae'n safle diwydiannol o ganlyniad i'w chwarel calchfaen.

Roedd dros gant o bobl (dynion a merched fel ei gilydd) yn gweithio yno. Gwaith sychedig oedd e, ac yn ôl pob hanes, roedd pedair neu bum tafarn i dorri syched y gweithwyr. Yn wreiddiol, tafarnau oedd y ddau adeilad sy'n dal i sefyll y tu ôl i'r traeth: 'Y Beaufort' a'r 'Ship'.

Roedd y calchfaen yn cael ei dorri o'r clogwyni a'i lusgo i'r traeth a chael ei dorri i mewn i ddarnau llai er mwyn eu llwytho ar longau. Mae'n debyg y byddai'r capteiniaid yn agor môr-falfiau y llongau (pan oedd y llanw'n mynd allan) er mwyn eu "suddo." Pan oedd y llong yn llawn dŵr, bydden nhw'n cau'r môr-falfiau er mwyn sicrhau torri trawid y talpiau o galchfaen wrth iddyn nhw gael eu llwytho. Wedyn, bydden nhw'n gadael y dŵr allan o'r llongau a chau'r môr-falfiau. Pan oedd y llanw'n dod i mewn bydd y llong yn

codi gyda'r llanw. Mae'r twyni cerrig sy'n nodweddiadol o'r bae ac sydd yn gwneud y bae yn unigryw yn ganlyniad o'r gwaith o dorri'r calchfaen mewn i ddarnau llai.

Gwnaeth y calchfaen gael ei allforio i ogledd Dyfnaint lle'r oedd yn cael ei ddefnyddio yn bennaf i gyfoethogi pridd y ffermydd yno. Yn sgil y dirwasgiad amaethyddol yn hwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hefyd gwrtaith synthetig ar gael am y tro cyntaf, gwnaeth y chwarel ddirwyn i ben. Gwnaeth y tafarnau barhau am bron hanner can mlynedd arall (daeth y Ship i fod yn ystafell de).

Mae llawer o bobl yn anmwybodol o fodolaeth y bae achos does dim ffordd mynd yna efo'ch car. Mae llwybr yr arfordir yn mynd trwodd ond does dim llawer o'r cerddwyr yn sylweddoli bod hanes diddorol i'r ardal. Dim ond hanner y stori sydd yma, y tro nesaf byddaf yn sôn am y diwydiant arall, sef smyglo! Os fydd diddordeb efo chi mewn gwybod mwy o hanes Pwll Du, galla i gymeradwyo llyfr Heather Holt "Pwll Du Remembered." Fel mae'r awdur ei hun yn dweud, trwy siarad â phobl yn eu wyth neu naw degau, mae hi wedi llwyddo i achub cymaint o hanes diddorol iawn yr ardal a hefyd i daflu goleuni ar ffordd o fyw milltir sgwar lleol.

ELENA'N ENNILL

Llongyfarchiadau mawr i Elena Ruddy o flwyddyn 11 Ysgol Gwyr ar ennill Tlws Barddas Ysgolion Uwchradd am gyfansoddi ei cherdd 'Twyll'. Camp a hanner, a braf oedd gweld cydnabyddiaeth am dy dalentau llenyddol.

TWYLL
Y tywydd a ddaw'n ddewin
A'i heulwen, cynnar, cyfrin
I eflychu Mehefin;
A phrifio a wna'r egin.



Haul y mis bach â'i wên braf
Yn denu o'r pridd flodau peraf

Y gwanwyn, am y cyntaf,
I gyhoeddi diwedd gaef.

O'r pridd, daw ei hwyneb eiddil,
Wyneb tlws, yn plygu gwegil
Lluniaidd, a lliwiau cynnil
Yn wrid ar ei gruddiau swil.

Ond yn rhy glou daw'r rhow glas
I wyso'i bochau irlas,
A'r tir yn ddfifaith o'i chwmpas;
Cyfrwys yw'r consuriwr cas.

Llwyddiant Pel-droed

Llongyfarchiadau mawr i Sonny Bourne a Lewis Bell o flwyddyn 11 Ysgol Gwyr ar gael eu dewis i gynrychioli C.P. Ysgolion Abertawe.

Gwenno Robinson

Daeth cydnabyddiaeth haeddiannol iawn i

Gwenno Robinson o flwyddyn 13 am ei thraethawd yng nghystadlaethaueth ryngwladol R. A. Butler Prifysgol Caergrawnt. Cyrhaeddodd ei thraethawd "Why should anybody bother to vote" yr wyth uchaf. Cafodd ganmoliaeth uchel am ei thrafodaeth ar y pwnc.



AR GAEL YN SIOP TY TAWE:

Mae llyfr atgofion Neil Rosser, y canwr o'r Gelli Fedw, ar gael yn siop Ty Tawe. Mae geiriau nifer o'i ganeuon yn *Ochor Treforys i'r Dre*, ac yna mae'n adrodd hanes y caneuon. Mae rhai o gyfnod ei blentyndod a'i ieuencid, a gyda'i gilydd maen nhw'n cynnig darlun byw o gymdeithas Abertawe, gan gynnwys chwarae ar y stryd, mynd i'r Fetsh, pysgota, bywyd teuluol a charu. Mae Neil yn un o'n diddanwyr gorau, ac mae ei afiaith yn glir yn y caneuon a'r hanes. Eto, mae elfen o Abertawe ddiflanedig yma, wrth i'r gymuned Gymraeg ddirywio. Diflannodd capel Ebenezer Llwynbrwydrau wrth adeiladu'r M4. Ond mae'r cyfan yn wledd. Medd un darlennydd: "Llyfr Neil Rosser mor ddoniol fi 'di bod yn chwerthin mas yn uchel! Methu ei roi e lawr."

Wilia Bach
yng ngofal Heini Gruffudd

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.
Daliwch i anfon, bydd rhifyn eto'n fuan:
wilia@hotmail.co.uk




Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

CYMRAEG SIOP Y COP

Braf gweld y Gymraeg yn unig ar arwydd siop newydd y Co-op yn Heol Walter Abertawe, a thipyn o Wyddeleg hefyd ar rai arwyddion!

